**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD GWYNEDD A MÔN**

**Pwyntiau Gweithredu**

| **Sesiwn Gwrandawiad 1 – Paratoad, Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth Ofodol y Cynllun** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S1/PG1 | AMTLl 2016 ac arolygon lleol | Rhoi copi o AMTLl 2016 Môn yn llyfrgell yr Archwiliad.<br><br>Cyflwyno papur byr yn rhoi sylwadau ar ganfyddiadau AMTLl 2016 Mon.<br><br>Cyflwyno papur yn cyfeirio tuag at gofynion Ardal Cynllunio Gwynedd ac amserlen ar gyfer cael gwybodaeth pellach ar gyfer Gwynedd.<br><br>Rhoi copi o adroddiadau arolygon gan yr Hwyluswyr Tai Gwledig yn y llyfrgell. | Wedi cwblhau<br><br>Erbyn 7/10<br><br>Erbyn 7/10<br><br>Erbyn 23/9 |
| S1/PG2 | Clystyrau | Angen ystyried effaith lefel twf welwyd ar sail polisi tai marchnad yn y Clystyrau ac os dylid tynnu allan rhai Clystyrau o'r Polisi hefyd y cyfiawnhad ar gyfer 2 fesul pob Clwstwr (gweler pwynt gweithredu S3/ PG6 hefyd) | Erbyn 7/10 |
| S1/PG3 | Cyffredinol | Adolygu'r Cynllun i sicrhau nad oes yna ail adrodd materion rhwng polisïau strategol a pholisïau manwl ar yr 'run pwnc – a oes angen rhai polisïau strategol? Yn ychwanegol sicrhau nad | Cyflwyno enghreifftiau i'w hystyried erbyn 30/9 |

| Sesiwn Gwrandawiad 1 – Paratoad, Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth Ofodol y Cynllun | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | ydi meini prawf yn cael eu cynnwys mewn polisïau sy'n ail-adrodd gofynion polisi arall heb fod angen gwneud hynny. Efallai bydd cyfle i drafod hyn mewn gwrandawiad ar wahân. | |
| S1/PG4 | PS1 | • Maen Prawf 5 – bod y Cynghorau yn ystyried arall eiriad geirfa i adlewyrchu'r materion perthnasol y gellid rhoi ystyriaeth iddynt efo cais cynllunio, e.e. yr angen am Strategaeth Arwyddion, a ellir ei ddisgrifio'n fwy manwl mewn CCA, a chyflwyno Newid Materion sy'n Codi yn unol a hynny.<br>• Maen Prawf 2 – Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i aralleirio'r geirfa  er mwyn cyfeirio tuag at cyfleon ar hap annisgwyl yn hytrach na bod mor rhagnodol, er mwyn adlewyrchu'r posibilrwydd y gallai safleoedd mawr ddod ymlaen yn annisgwyl yn ystod oes y Cynllun.<br>• Meini Prawf 3 a 4 – bod y Cynghorau yn edrych ar gyfuno rhain i un faen prawf a chyflwyno Newid Materion sy'n Codiyn unol a hynny. | Erbyn 23/9 |
| S1/PG5 | ISA 1 | Y Cynghorau i edrych ar eiriad y Newid Materion sy'n Codi yn y copi Cymraeg a Saesneg i sicrhau bod yna gysondeb. | Erbyn 23/9 |
| S1/PG6 | Rôl ffiniau datblygu | Edrych ar gyflwyno polisi sy'n nodi'n union beth yw rôl ffiniau datblygu a'i adnabod fel Newid Materion sy'n Codi, gan ofalu na fydd y polisi newydd yn gwahardd pob datblygiad yng | Erbyn 23/9 |

| Sesiwn Gwrandawiad 1 – Paratoad, Gweledigaeth, Amcanion a Strategaeth Ofodol y Cynllun | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | nghefn gwlad. | |
| S1/PG7 | Clystyrau | Bod y Cyngor yn cadarnhau os mae 111 yntau 112 ddylai'r nifer o Glystyrau fod. | Erbyn 23/9 |
| S1/PG8 | C39 Stad Diwydiannol Griffin Penrhyndeudraeth | Bod y Cyngor y cyflwyno Newidiadau Materion sy'n Codi i ddiwygio'r map Mewnosodedig ar gyfer Penrhyndeudraeth i eithrio'r rhan o'r safle cyflogaeth C39 (fel a nodir yn y map yn Atodiad 1 i ddatganiad y Cyngor) a newid maint y safle ym mholisi CYF 1 | Erbyn 23/9 |